Os ydych yn gwneud gwaith gofalu di-dal, cymerwch ofal o'ch pensiwn drwy wneud cais am Gredyd Gofalwr

Oeddech chi'n gwybod gallai hyd at 250,000 o bobl sy'n gofalu am ffrind neu berthynas sâl neu anabl ar sail ddi-dal fod yn colli allan ar ddiogelwch pwysig i'w Pensiwn y Wladwriaeth?

Efallai nad yw cynilo ar gyfer ymddeoliad yn flaenoriaeth pan rydych yn ffeindio eich hun yn gofalu am rywun. Efallai bydd eich ffocws naturiol ar anghenion eraill, yn hytrach na chynllunio eich dyfodol ariannol eich hun. Ac nid oes llawer o ofalwyr yn cydnabod y cymorth maent yn ei roi yn ddi-dâl i ffrind anabl neu sâl neu aelod o'r teulu fel 'gofalu'.

Hyd yn hyn mae llai na 1,000 o bobl wedi gwneud ceisiadau am Gredyd Gofalwr i fyny felly mae'r llywodraeth yn galw ar ffrindiau a theulu i helpu lledaenu'r gair.

Os ydych yn nabod rhywun, rhwng 16 oed ac oedran Pensiwn y Wladwriaeth, sydd wedi gorfod rhoi'r gorau i'r gwaith neu'n gweithio llai oherwydd cyfrifoldeb gofalu, rydym yn gobeithio byddech yn dweud wrthynt fod yna gamau syml gallant eu cymryd nawr i weld os ydynt yn gymwys i gael Credyd Gofalwr.

CAM 1: Deall pa gymorth rydych yn ei dderbyn yn barod

Os ydych yn derbyn budd-daliadau fel Lwfans Gofalwr, Cymhorthdal Incwm fel gofalwr, neu Fudd-dal Plant am blentyn o dan 12 yn barod, mae eich Pensiwn y Wladwriaeth wedi ei ddiogelu eisoes ac nid oes rhaid i chi wneud cais ar wahân am Gredyd Gofalwr.

CAM 2: Gweithio allan faint o oriau rydych yn gofalu am rhywun pob wythnos

Mae'n rhaid i chi fod yn gofalu am gyfanswm o 20 awr neu fwy'r wythnos am un neu fwy o bobl sy'n cael Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Gweini neu Lwfans Gweini Cyson. Os nad ydynt yn derbyn y budd-daliadau hyn efallai byddwch dal yn gallu cael Credyd Gofalwr ond byddwch angen gweithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol i gadarnhau fod y gofal rydych yn ei ddarparu yn briodol.

Mae yna nifer o grwpiau o ofalwyr a all elwa o Gredyd Gofalwr. Mae y rhain yn cynnwys gofalwyr sydd yn colli allan ar Lwfans Gofalwr oherwydd eu bod:

- ddim yn treulio amser yn gofalu am rywun am 35 awr neu fwy'r wythnos
- yn edrych ar ôl rhywun sydd ddim yn hawlio budd-daliadau anabledd
- yn gofalu am berson anabl neu sâl lle mae rhywun arall yn hawlio Lwfans Gofalwr am edrych ar eu hôl
- yn edrych ar ôl nifer o bobl ond nid yn gofalu am ddim ond un ohonynt am 35 awr neu fwy'r wythnos
- yn gofalu a gweithio ond ddim yn ennill digon i dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol am y flwyddyn gyfan
- yn gofalu ac yn hunan-gyflogedig

Gall gofalwyr sy'n cael rhai budd-daliadau fel Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth gweld hi'n fuddiol i wneud cais am Gredyd Gofalwr gan efallai gallant gael credydau tuag at yr Ail Bensiwn y Wladwriaeth.

CAM 3: Os ydych yn credu eich bod yn gymwys, gwnewch gais am Gredyd Gofalwr

Gallwch wneud hyn drwy ymweld â www.direct.gov.uk/carerscredit neu ein ffonio:

0845 608 4321

0845 604 5312

Cewch wybod mwy am y camau syml gallwch eu cymryd i gynllunio sut byddwch yn ariannu eich ymddeoliad drwy ymweld â www.direct.gov.uk/dyfodolgwell

Cysylltwch â ni am fod yn bartner:
pensions.planning@dwp.gsi.gov.uk

DWP Adran Gwaith a Phensiynau